

# Menter Iaith Fflint a Wrecsam

Manylion Person: Prif Swyddog Menter Iaith Fflint a Wrecsam

## Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

### Hanfodol:

- Dealltwriaeth drylwyr o waith ac amcanion y Mentrau Iaith a'u gweledigaeth ynglŷn â lledaenu a chynyddu defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru.
- Gradd, neu gymhwyster gyfwerth, mewn pwnc sy'n berthnasol i'r swydd.
- Profiad o weithredu ar lefel strategol a dealltwriaeth dda o lywodraeth cenedlaethol a lleol.
- Profiad o reoli, arwain a datblygu staff, a'r gallu i ysgogi a grymuso cydweithwyr.
- Sgiliau meddwl arloesol a strategol.
- Profiad o reoli cyllid a pharatoi ceisiadau am nawdd.
- Profiad o reoli a monitro cyllid.
- Sgiliau rhyngpersonol ardderchog gyda'r gallu i feithrin perthnasau strategol ar draws ystod eang o wahanol sefydliadau a mudiadau.
- Sgiliau trefnu cryf gyda'r gallu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel yn gyson.
- Sgiliau cyfathrebu dwyieithog (Cymraeg/Saesneg) llafar ac ysgrifenedig ardderchog.
- Sgiliau dehongli a chyflwyno gwybodaeth.
- Hyderus wrth ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth, gan gynnwys Microsoft Office a chyfryngau cymdeithasol.
- Gweithio mewn modd proffesiynol ar bob achlysur gan arddel egwyddorion Nolan
- Trwydded yrru gyfredol a char i'w ddefnyddio at ddibenion busnes

### Dymunol:

- Adnabyddiaeth o natur ieithyddol, economaidd a chymdeithasol yr ardal.
- Hyfforddiant mewn Cynllunio Ieithyddol neu Ddatblygu Cymunedol.
- Profiad o reoli a monitro prosiectau Llywodraeth Cymru a chyrrff cyllido eraill.
- Profiad o ddenu nawdd neu ennill cytundebau gwaith newydd trwy ymateb i dendrau, ceisiadau cronfeydd strategol, grantiau cyhoeddus, sefydlu partneriaethau ayyb.